Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Castell

**Lôn Hylas**
**Rhuddlan**
**Sir Ddinbych**
**LL18 5AG**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Castell

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Castell |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 229 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 182 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 23 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 22.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 11.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/04/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/10/2022 |
| Wedi i'r pennaeth blaenorol ymddeol ar ddiwedd tymor yr haf 2022, penodwyd pennaeth newydd, ond ni fydd yn dechrau yn y swydd tan fis Ionawr 2023. Mae'r dirprwy bennaeth, a benodwyd ym mis Ionawr 2021, yn ymgymryd â rôl pennaeth dros dro tan yr adeg honno. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol y Castell yn ysgol hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn hyderus. Mae staff yn canolbwyntio'n dda ar les disgyblion, ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ffynnu yn amgylchedd cynhwysol yr ysgol. Dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu anawsterau. Mae'r cymorth ar gyfer lles emosiynol disgyblion yn hynod effeithiol ac yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at yr ysgol, maent yn ymddwyn yn dda ac yn mwynhau eu dysgu. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf gydag oedolion ac â'i gilydd ac yn dangos parch a chwrteisi at bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog, eang a chytbwys o brofiadau dysgu a darpariaeth ychwanegol sy'n diwallu anghenion a diddordebau addysgol ac ehangach y disgyblion yn dda. Caiff staff eu hannog i roi cynnig ar ymagweddau newydd at addysgu, a datblygu amrywiaeth y profiadau dysgu y maent yn eu cynnig i ddisgyblion. Maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn mae disgyblion eisiau dysgu amdano, ac yn plethu eu syniadau mewn dilyniannau gwersi wedi'u cynllunio'n dda sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cael yr her na'r cyfle i ddefnyddio'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm cystal ag y gallent.

Mae gan arweinwyr yr ysgol ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a phawb yng nghymuned yr ysgol i wneud eu gorau dros ddisgyblion. Maent yn gosod naws gadarnhaol ac uchelgeisiol ar gyfer gwaith yr ysgol. Maent yn meithrin cydweithio ymhlith staff, yn meithrin arbenigedd proffesiynol ac yn cryfhau partneriaethau â rhieni yn llwyddiannus. Mae hyn yn helpu'r ysgol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel diwygio'r cwricwlwm a lles disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gosod nodau clir ar gyfer gwella; fodd bynnag, nid yw gweithgarwch monitro bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y gwahaniaeth a wna gwaith gwella i ddysgu disgyblion. Mae gan y corff llywodraethol ran bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cynorthwyo ac yn herio arweinwyr yn effeithiol. Mae ganddynt ystod eang o wybodaeth ac arbenigedd sy'n eu helpu i gyflawni eu rolau'n dda.

## Argymhellion

A1 Canolbwyntio gwaith hunanwerthuso a gwella yn graffach ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

A2 Herio pob un o’r disgyblion i wella eu medrau digidol ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella hyder a gallu disgyblion i siarad Cymraeg, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae’r pandemig wedi arafu’r cynnydd hwn i leiafrif o ddisgyblion, yn enwedig o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn unigol, ac yn cyflawni’n dda yn erbyn eu targedau personol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu yn dda. Mae disgyblion iau yn gwrando â diddordeb cynyddol ac yn canolbwyntio’n gynaledig am gyfnodau amser estynedig. Maent yn cyfleu eu hanghenion a’u meddyliau yn hyderus yn ystod gweithgareddau a sesiynau chwarae, er enghraifft wrth wneud ‘cawl yr hydref’ gan ddefnyddio deunyddiau naturiol yn yr ardal awyr agored. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn gynyddol huawdl. Mae disgyblion hŷn yn gwrando’n bwrpasol i ennill gwybodaeth, er enghraifft wrth drafod rolau priodol y Senedd a Senedd San Steffan. Maent yn cynnig barn, gan roi rhesymau am eu hatebion. Maent yn trafod eu gwaith yn ystyriol mewn parau ac mewn grwpiau, ac yn cyfathrebu’n dda i gyflawni tasgau.

Mae disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar storïau a’u hail-ddweud wrth eu ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i ddechrau darllen testunau syml, ond rhai sy’n briodol i gyfnod. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth gynyddol. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, maent yn adeiladu ar y cynnydd hwn ac yn datblygu ystod dda o strategaethau i ddod yn ddarllenwyr rhugl. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau priodol yn annibynnol ac yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol i gefnogi eu dysgu mewn gwahanol bynciau.

At ei gilydd, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda. Maent yn deall o oedran cynnar y gallant gyfathrebu trwy greu marciau, ac mae hyn yn eu cymell i ysgrifennu wrth iddynt symud trwy gamau cynnar eu datblygiad. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o ystod eang o wahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn cymhwyso’r wybodaeth hon yn dda yn eu gwaith eu hunain. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau ac yn datblygu eu syniadau’n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn ysgrifennu mewn ystod eang o arddulliau a genres â hyder cynyddol wrth iddynt ennill profiad. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dewis geirfa ddiddorol ac amrywiol yn eu hysgrifennu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu’n annibynnol ac yn estynedig ar draws y cwricwlwm i’r safon y gallent ei chyrraedd. Mae defnyddio templedi ysgrifennu yn rheolaidd yn cyfyngu ar eu hysgrifennu yn ormodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau mathemategol. O oedran cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau, maint a siâp. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn adeiladu ar y medrau hyn wrth iddynt ddysgu adio a thynnu rhifau. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werth lle mewn rhifau dau ddigid. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu

medrau rhifedd yn dda, er enghraifft wrth gynllunio gosodiad golwg oddi uchod o'u prosiect ar Gastell Rhuddlan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn gweithio'n dda gyda phedair rheol rhif, siâp a mesur, ac yn datblygu medrau trin data da. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ddulliau yn fedrus i gyfrifo yn eu pennau ac ar bapur wrth ddatrys problemau. Maent yn disgrifio eu meddwl a'u rhesymu yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau rhifedd i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i gynllunio gardd 'Cloddio am Fuddugoliaeth' fel rhan o'u prosiect ar yr Ail Ryfel Byd.

Mae datblygiad medrau Cymraeg disgyblion wedi cael ei lesteirio gan gyfleoedd dysgu a gollwyd yn deillio o'r pandemig. Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg ac maent yn ymateb i gyfarwyddiadau athrawon yn dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cyfarchion ac ymadroddion syml, er enghraifft wrth drafod y tywydd. Mae llawer ohonynt yn canu caneuon yn Gymraeg yn frwdfrydig yn ystod sesiwn 'Jambori'. Mae disgyblion hŷn yn cyfleu gwybodaeth syml yn briodol, er enghraifft wrth rannu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau Cymraeg mor ddatblygedig ag y gellir ei ddisgwyl am eu hoedran. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg llafar yn ddigon hyderus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod briodol o fedrau digidol i gefnogi eu dysgu a'u helpu i'w cyfleu yn bwrpasol. Mae disgyblion iau, er enghraifft, yn dysgu sut y gellir defnyddio rhaglenni digidol i reoli robot llawr i osgoi rhwystrau, a sut y gellir defnyddio rhaglen animeiddio yn greadigol i gofnodi disgrifiadau o'u cartrefi a'u teuluoedd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod eang o apiau a rhaglenni â hyder cynyddol. Maent yn datblygu dealltwriaeth addas o sut y gellir defnyddio codio sylfaenol, er enghraifft i reoli delwedd ar y sgrin er mwyn creu cwis am archwilio'r gofod. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio amrywiaeth briodol o raglenni i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio eu medrau digidol yn hyderus ac yn annibynnol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn hyderus yn amgylchedd yr ysgol. Maent yn ofalgar, yn oddefgar ac yn barchus tuag at ei gilydd, ac at oedolion. Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn rhydd rhag problemau bwlio. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd rheolaidd a roddir iddynt drafod eu teimladau a'u hemosiynau. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan staff, yn gwybod at ble i droi os bydd angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn symud o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol. Maent yn ymdawelu mewn gwersi yn gyflym, yn canolbwyntio'n dda ar eu dysgu, ac yn ffocysu'n effeithiol ar dasgau a gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn dyfalbarhau â thasgau wrth ymgymryd â gwaith mwy heriol. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwersi ac yn ymfalchïo mewn dangos beth y gallant ei wneud. Maent yn disgrifio'n hyderus eu bod

yn cael dweud eu dweud am yr hyn y maent yn ei ddysgu, er enghraifft yn ystod trafodaethau yn ystod cam cynllunio eu testunau dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad â'u dysgu.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn dda. Mae llawer o ddisgyblion iau yn dangos y medrau hyn yn briodol wrth ddewis gweithgareddau yn yr ardaloedd awyr agored, er enghraifft. Yn aml, mae disgyblion hŷn yn chwilio am eu hatebion eu hunain i gwestiynau neu broblemau gan ddefnyddio dull 'nhw eu hunain, cymydog, pobl eraill' yn effeithiol cyn gofyn i'w hathro am help os oes angen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn dangos parch at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy alluogi pobl eraill i siarad neu drwy aros yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw. Maent yn gwrando'n amyneddgar, yn cymryd eu tro mewn gweithgareddau pâr, ac yn rhannu offer yn dda, er enghraifft wrth ddylunio, mireinio a phrofi parasiwtiau y maent wedi'u creu fel rhan o'u prosiect ar 'Y Sioe Orau' ('The Greatest Show'). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb yn dda i adborth gan oedolion a'u cyfoedion. Maent yn cymryd amser i hunanasesu eu dysgu yn ystod gwersi ac yn ymateb yn gadarnhaol i sylwadau athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy amrywiaeth o rolau a phwyllgorau llais y disgybl, er enghraifft pwyllgor y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Tra byddant yn ymgymryd â'r rolau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn dangos hyder, a gallant esbonio ble mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn siarad yn frwdfrydig am ddylanwad y pwyllgor eco sy'n cynnal gwiriadau rheolaidd ar faint o blastig sydd mewn blychau cinio ysgol, yn ogystal â threfnu 'amnestau gwisg ysgol' bob blwyddyn pan fydd yr ysgol yn trosglwyddo'r rhain i rieni eraill. Maent yn deall sut mae'r mentrau hyn yn helpu'r amgylchedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am eu hawliau fel plant, ac yn deall bod ganddynt hawliau. Mae disgyblion hŷn yn siarad am eu hawliau yn fanwl, beth maent yn ei olygu a sut maent yn berthnasol yn yr ysgol. Maent yn parchu pobl eraill ac yn dathlu'r amrywiaeth yn eu hysgol yn frwdfrydig. Maent yn disgrifio gwledydd lle na chaiff hawliau disgyblion eu cynnal, ac yn cymharu eu bywydau eu hunain â bywydau pobl mewn gwledydd eraill. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn y gymuned a'r byd ehangach.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod am bwysigrwydd diogelu eu cyfrineiriau a'u gwybodaeth bersonol. Maent yn arwain gwasanaethau ar agweddau ar e-ddiogelwch ac yn mynd ati i gymryd rhan mewn diwrnodau diogelwch ar y rhyngrwyd, gan lunio posteri yn annog defnydd diogel o'r rhyngrwyd. Mae pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd i fod yn iach. Caiff hyn ei hyrwyddo'n dda gan lysgenhadon chwaraeon yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth addas am bwysigrwydd sut i wneud dewisiadau iach yn ymwneud â diet ac yn cymhwyso hyn i'w dewis o fyrbrydau a chiniawau.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir, ar y cyd ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n gweithio'n dda i ddatblygu dyluniad cwricwlwm sy'n diwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae gweledigaeth yr ysgol yn adlewyrchu cyd-destun yr ysgol yn dda ac mae staff yn cynllunio'n effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol, er enghraifft trwy eu cysylltiadau cryf â Chastell Rhuddlan.

Mae staff yn treialu'n frwdfrydig wahanol ffyrdd o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn unol â gofynion y cwricwlwm, er enghraifft trwy gyflwyno'r tri chyfnod dysgu, sef 'Archwilwyr, (Meithrin a Derbyn), Anturiaethwyr (Blynyddoedd 1, 2 a 3) a Darganfyddwyr' (Blynyddoedd 4, 5 a 6). Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol yn y cyfnodau hyn i sicrhau parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion. Mae staff yn ymgynghori'n rheolaidd â disgyblion am yr hyn yr hoffent ei ddysgu, ac yn ymgorffori'r syniadau hyn mewn cynllunio testunau. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu'n fwy â'u dysgu.

Mae staff yn darparu profiadau dysgu cyffrous sy'n symbylu disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn cymryd rhan mewn gweithdy syrcas fel rhan o'r testun 'Y Sioe Orau' ('The Greatest Show'). Mae disgyblion hŷn yn dangos lefelau uchel o frwdfrydedd am eu gwaith, er enghraifft wrth wylio cynhyrchiad y Theatr Genedlaethol o Treasure Island. Darparodd hyn symbyliadau gwerth chweil ar gyfer ysgrifennu stori ar y thema môr-ladron.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ddysgu am natur amrywiol Cymru a'r byd ehangach. Mae staff wedi meithrin cysylltiadau pwrpasol ag ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol ledled Ewrop i ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion astudio gwledydd Ewropeaidd a thrwy'r byd i gyd. Mae athrawon yn ymestyn darpariaeth y cwricwlwm trwy gysylltiadau cymunedol cryf gydag ymweliadau, fel plannu blodau haul yng nghlwb bowlio Rhuddlan, ac aelodau'n addysgu'r disgyblion ynglŷn â sut i chwarae bowls.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn cystal ag y gallent mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae llawer o athrawon yn defnyddio geirfa Gymraeg sylfaenol yn briodol yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft i roi cyfarwyddiadau i'w disgyblion. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud y gorau o gyfleoedd i fodelu'r iaith neu annog y disgyblion i siarad, gofyn ac ateb cwestiynau yn Gymraeg.

Mae athrawon yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion, ac yn creu amgylchedd dysgu cynnes, anogol a chefnogol. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn eu hannog i wneud eu gorau. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd gweithio pwrpasol lle mae disgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt ac y gallant ofyn cwestiynau os oes angen cymorth arnynt â'u dysgu. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu ac yn gweithio'n ddiwyd yn ystod gwersi. Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc dda a chyfoes ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol i symbylu ac annog disgyblion i ddysgu. Mae staff cymorth yn gweithio ochr ag ochr ag athrawon yn fedrus ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu'r

disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn sicrhau bod cyflymdra addas i ddysgu bron ym mhob dosbarth. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio holi'n dda i symud dysgu'r disgyblion ymlaen a chefnogi dealltwriaeth yn unol ag anghenion y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae athrawon yn tueddu i arwain gweithgareddau yn ormodol, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion benderfynu drostynt eu hunain sut maent yn trefnu ac yn cyflwyno'u gwaith eu hunain yn effeithiol.

Mae pob un o'r athrawon yn darparu cyfarwyddiadau clir, ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i fod yn llwyddiannus. Maent yn darparu adborth uniongyrchol i nodi'r hyn mae disgyblion wedi'i wneud yn dda a'r hyn y gallant ei wneud i wella'u dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn gynyddol. Mae hyn yn eu helpu i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae staff yn defnyddio asesiadau ysgol yn effeithiol i nodi'r camau nesaf ar gyfer dysgu a chynllunio darpariaeth a chymorth priodol, er enghraifft trwy sicrhau ymyrraeth o ansawdd da â llythrennedd a rhifedd. Mae adroddiadau blynyddol yr ysgol i rieni yn darparu gwybodaeth briodol am gynnydd eu plentyn ac yn darparu camau nesaf addas iddynt wella'u dysgu, gan gynnwys sut gall rhieni helpu eu plentyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o barch at ei gilydd. Mae staff yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd, a'r gymuned leol yn dda iawn. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion ac yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd anogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, eu bod yn derbyn gofal ac yn ymfalchïo mewn bod yn aelodau gwerthfawr o 'deulu'r ysgol'. Mae'r ffocws cryf hwn ar wella lles disgyblion yn agwedd allweddol ar ddarpariaeth yr ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol at hapusrwydd a lles disgyblion. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol yn ystod y pandemig.

Mae staff yn dangos ffocws diwyro ar ymestyn darpariaeth i gefnogi lles emosiynol disgyblion, er enghraifft trwy godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hemosiynau a sut i aros yn bwyllog pan fyddant yn teimlo'n bryderus. Mae strategaethau'n cynnwys ymarferion anadlu a chyfle i gael cymorth llythrennedd emosiynol gan gynorthwywyr ystafell ddosbarth hyfforddedig. Mae oedolion yn sicrhau bod disgyblion yn cael amser i siarad os ydynt yn anhapus, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am unrhyw bryderon personol a allai fod ganddynt. Yn ystod y dydd, mae systemau clir ar waith i helpu disgyblion sy'n cael trafferthion â'u hemosiynau i hunanreoli. Er enghraifft, mae disgyblion iau sy'n wynebu problemau emosiynol yn ystod y dydd yn gallu cael amser tynnu o wers yn lloches 'Zen Den' yr ysgol. Mae disgyblion sy'n ei chael yn anodd setlo yn gallu troi at oedolion hyfforddedig trwy gydol y dydd i gefnogi eu hymgysylltiad mewn gwersi.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant Cymru a threftadaeth Gymreig yn effeithiol ar draws yr ysgol trwy ddigwyddiadau rheolaidd fel Eisteddfodau, Jambori a thestunau, yn cynnwys 'Cŵl Cymru' lle mae disgyblion yn dathlu hanes a thraddodiadau Cymru.

Mae hyn hefyd yn cynnwys defnyddio eu cymuned fel adnodd addysgol trwy astudiaethau amgylcheddol yn yr ardal adnoddau naturiol gyfagos a Chastell Rhuddlan. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn nhraddodiadau'r ardal a'u Cymreictod.

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a systemau datblygedig ac effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. Ceir prosesau clir i nodi disgyblion sydd angen cymorth, cynllunio ymyrraeth a gwerthuso effaith y gwaith hwn. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn magu hyder ac yn dangos brwdfrydedd o'r newydd tuag at ddysgu, yn ogystal â dangos gwelliant nodedig yn eu medrau cymdeithasol. Mae staff cymorth yn darparu cymorth o ansawdd da ar gyfer rhaglenni, gan gynnwys lles emosiynol, llythrennedd a rhifedd. Maent yn cynnwys disgyblion, rhieni a safbwyntiau asiantaethau allanol yn effeithiol i gynllunio camau nesaf y disgyblion mewn dysgu. Mae deialogau proffesiynol dyddiol rhwng staff cymorth ac athrawon yn eu galluogi i fonitro cynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol, ac yn addasu'r ddarpariaeth mewn modd amserol i fodloni unrhyw dargedau newydd a allai fod ganddynt. Mae cysylltiadau cadarn ag ystod o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth lleferydd ac iaith a gwasanaethau cwnsela, yn darparu cymorth arbenigol a buddiol ar gyfer disgyblion sydd ei angen.

Mae ffocws cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hawliau plant. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o degwch, cydraddoldeb a chynhwysiant yn eu bywydau eu hunain. Mae addoli dyddiol ar y cyd, lle caiff disgyblion amser i fyfyrio, yn cefnogi eu dealltwriaeth o natur amlddiwylliannol cymdeithas yn dda, ac yn cynnwys dathliadau mathau eraill o ffydd fel Diwali, Eid a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am wneud dewisiadau iach ynglŷn â ffordd o fyw, er enghraifft yn ystod 'Dydd Mercher Lles'. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion elwa ar ymarfer corff fel 'y filltir ddyddiol', ioga, dawns a phêl-droed. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn cymell disgyblion i gadw'n heini ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o fyw yn iach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles emosiynol ac iechyd corfforol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i feithrin agwedd gadarnhaol tuag at ddatrys problemau a dyfalbarhau â gweithgareddau dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at eu gwaith a'u gallu i oresgyn heriau'n llwyddiannus.

Mae'r ethos cynhwysol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod yn aelodau o gynghorau amrywiol. Mae staff yn sicrhau bod y cynghorau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol a'r gymuned yn dod yn hynod werthfawr. Mae amgylchedd yr ysgol ac addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau pobl eraill yn sensitif, cydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel parch, goddefgarwch a gofalu.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol i gynorthwyo disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn ar waith i hyrwyddo presenoldeb da gan ddisgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i

gefnogi gan yr awdurdod lleol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth effeithiol, sy'n sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir, ac yn hyrwyddo cymuned glos a chynhwysol. Mae ganddi weledigaeth glir, gyda phwyslais ar ysbrydoli pob un o'r disgyblion i fod y gorau y gallant fod ym mhopeth a wnânt, trwy alluogi datblygu medrau a fydd yn rhoi'r dechrau cryfaf mewn bywyd iddynt. Caiff y pennaeth gefnogaeth dda gan y dirprwy bennaeth dros dro, ac mae pob aelod o staff yn hyrwyddo gweledigaeth a gwerthoedd cytûn yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, ceir ethos tîm cryf a pharch ar y ddwy ochr rhwng disgyblion ac oedolion sy'n gweithio yn yr ysgol, gydag ymrwymiad i 'ddysgu oddi wrth ei gilydd a llwyddo gyda'i gilydd'.

Mae staff yn ymroddgar, yn weithgar ac yn cydweithio'n dda i sicrhau bod lles disgyblion wrth wraidd eu gwaith. Maent wedi creu diwylliant diogelu cadarnhaol, lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dangosant ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae'r pennaeth wedi nodi bod angen rhannu cyfrifoldebau arwain yn fwy effeithiol, ac wedi dechrau ysgogi newidiadau sy'n galluogi staff i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy mewn gwneud penderfyniadau. Mae hon yn nodwedd o'r ysgol sy'n datblygu er ei bod yn rhy gynnar i asesu ei heffaith ar ddeilliannau disgyblion.

Ymhlith arweinwyr a staff, ceir ymwybyddiaeth ac ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol mewn addysg, gan gynnwys gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, diwygio anghenion dysgu ychwanegol a chefnogi lles disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r pennaeth dros dro wedi cymryd yr awenau ar ddylunio'r cwricwlwm. Cymerodd ran weithredol mewn grwpiau lleol a rhanbarthol i gefnogi ei gwaith, a bu'n cydweithio â staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni i greu rhesymeg glir. Mae'r pennaeth yn annog ac yn cynorthwyo staff i arloesi a threialu ymagweddau newydd at addysgu a dysgu yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol brosesau priodol i werthuso'i pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o wybodaeth i nodi meysydd i'w gwella, gan gynnwys teithiau dysgu, craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a data ar berfformiad disgyblion, ynghyd â holiadur i ddisgyblion a holiadur i rieni. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i nodi meysydd priodol i'w gwella. Er enghraifft, maent wedi cydnabod bod angen sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn medrau llythrennedd a rhifedd wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Hefyd, mae arweinwyr yn cydnabod bod angen darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llafaredd Cymraeg yn hyderus y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Ceir cyfleoedd defnyddiol i bob aelod o staff gyfrannu at waith gwerthuso a gwella. Mae hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i staff sydd wedi mynychu hyfforddiant datblygu arweinyddiaeth yn ddiweddar i gymhwyso medrau newydd a ddysgwyd. Fodd bynnag, nid yw gwaith gwerthuso presennol yn canolbwyntio'n ddigon craff ar nodi'r gwahaniaeth a wna mentrau addysgu neu wella i'r cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol a hyfforddiant gwerth chweil sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi ymgorffori ystod eang o strategaethau ymyrraeth sy'n ymateb yn dda iawn i anghenion lles disgyblion. Maent yn defnyddio partneriaethau strategol gydag ysgolion lleol eraill i gefnogi dysgu proffesiynol pob aelod o staff.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cynhyrchiol â rhieni. Yn ystod y pandemig, creodd yr ysgol ystafelloedd dosbarth rhithwir ar wefan yr ysgol. Roedd yr adborth gan rieni a disgyblion yn gadarnhaol, ac mae'r ysgol wedi cynnal y rhain fel rhan o arferion bob dydd. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n dda am y gwaith mae eu plant yn ei wneud.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi datblygu cysylltiadau cynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau cymunedol sy'n amrywio o wella'r amgylchedd i ddiogelwch cymunedol. Mae athrawon yn defnyddio'r cysylltiadau hyn yn effeithiol i gefnogi'r cwricwlwm a sicrhau bod y disgyblion yn datblygu synnwyr cryf o gynefin.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus, yn effeithiol, ac wedi ymrwymo i gefnogi'r ysgol. Mae gan lywodraethwyr ystod werthfawr o arbenigedd proffesiynol ac maent yn cyfrannu'n dda at fywyd ysgol a'i lle yn y gymuned. Mae ganddynt ran allweddol mewn sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol ar gyfer yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn deall cyd-destun yr ysgol, ei chryfderau, a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella yn dda. Maent yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan arweinwyr yr ysgol, ac mae llywodraethwyr unigol yn ymweld â'r ysgol, er enghraifft i gynnal teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar waith disgyblion. Maent yn herio'n synhwyrol fel ffrindiau beirniadol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn drylwyr ac yn gwneud penderfyniadau craff am wariant yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o gyllid grant ychwanegol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni cymorth ffocysedig i helpu ac annog dysgu a lles disgyblion, ynghyd â chymorth ychwanegol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da gan ddisgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/12/2022